



## **Rhybudd Preifatrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru – Menter Twyll Genedlaethol**

### **Cyflwyniad**

O dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddarparu gwybodaeth i bob unigolyn ynghylch gwybodaeth bersonol rydym yn casglu ganddynt a sut y defnyddiwn y wybodaeth honno.

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn benodol â'r data a brosesir fel rhan o'r **Fenter Dwyll Genedlaethol**.

Am wybodaeth ar sut mae GTADC yn rheoli eich data personol, cyfeiriwch at ein Rhybudd Preifatrwydd i Weithiwr sydd ar gael drwy law adran AD – Cysylltiadau Gweithwyr o'r fewnryd.

### **Beth yw'r Fenter Dwyll Genedlaethol?**

Mae'n gyfreithiol ofynnol i Wasanaeth Tan ac Achub De Cymru amddiffyn y cyllid cyhoeddus a weithredir ganddo, ac fe all rannu gwybodaeth a ddarperir iddo â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weithredu cyllid cyhoeddus, er mwyn atal a chanfod twyll. Y Fenter Dwyll Genedlaethol (MTG) yw un o'r ffyrdd y gellir cyflawni hwn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn archwilio cyfrifon pob corff sector cyhoeddus Cymreig a gosododd dasg i Swyddfa Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru) ymgymryd â'r dadansoddiad sy'n ofynnol gan y Fenter Dwyll Genedlaethol.

Ymarferiad a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Dwyll Genedlaethol sydd â'i nod i ganfod/atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ar draws y DU.

Gofynna GTADC (a nifer o gyrff sector cyhoeddus eraill) i goladu set arbennig o ddata dros gyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r dadansoddiad yn cynnwys "Cydweddu Data".

### **Beth yw Cydweddu Data?**

Cydweddu data yw cymharu dwy neu fwy o setiau data.

Parthed MTG, bydd SAC yn derbyn setiau o ddata gan bob un o'r sefydliadau gorfodol (megis GTADC) yn ogystal â chyrrff sector cyhoeddus eraill sy'n dymuno cyfranogi.

Yna, cymherir y cofnodion hyn yn electronig i weld pa mor bell maent yn cydweddu.

Lle canfyddir cydweddiad, gall ddynodi bod anghysondeb, sy'n gofyn am ymchwiliad pellach. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bu gweithgarwch twyllodrus neu unrhyw ordaliad, ond amlyga feysydd a all ofyn am archwiliad pellach.

### **Pa wybodaeth bersonol a gesglir/ddarperir i'r Fenter Dwyll Genedlaethol?**

Delir y wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer yr ymarferiad hwn gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru eisoes at ddibenion cyflogaeth. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn manylu'r wybodaeth sy'n ofynnol.

Rhybudd Preifatrwydd GTADC– Menter Twyll Genedlaethol Fersiwn 0.1 - 190918  
Awdur:- Jackie Evans: Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd

# SWYDDOGOL

Bydd yn cynnwys yr un wybodaeth am bob gweithiwr. Darparwyd y wybodaeth ddilynol (os ydym yn ei ddal eisoes). Nid ydym yn gofyn i weithwyr am unrhyw wybodaeth ychwanegol - dim ond ar gyfer yr ymarferiad MTG:

- Rhif Staff, enw a manylion cyflog
- Dyddiad Geni
- Manylion Cyswllt y Gweithiwr (megis rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost os y'u delir)
- Rhif Pasbort
- Dyddiadau cychwyn a gorffen y Gweithiwr
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Dyddiad cyflog diwethaf
- Manylion banc gan gynnwys Cod Didoli
- Manylion o rôl a ymgwymerwyd – e.e. oriau gwaith, lleoliad gwaith a rhif y swydd

## Sail Gyfreithiol i Brosesu Eich Data

Er mwyn casglu neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol, at unrhyw ddiben, rhaid i ni gael sail gyfreithiol ddilys.

Yn yr achos hwn yn arbennig, mae'r seiliau canlynol yn gymwys:

- **Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio ag ymrwymiad cyfreithiol y rheolwr**  
Holwyd am y wybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar sail ei rymoedd o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn ôl diwygiad Deddf Troseddau Difrifol 2007. O dan y ddeddfwriaeth honno, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y grym i gynnal cydweddu data (adran 64a) a chadnabod sefydliadau sy'n gorfod darparu gwybodaeth iddynt. GTADC yw un o'r sefydliadau gorfodol hyn, sy'n golygu ei fod yn ofynnol drwy gyfraith i ni ddarparu'r wybodaeth.

Yn ychwanegol, fel y nodwyd eisoes, mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru gyfrifoldeb i sicrhau y rheolir y cyllid cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano yn briodol, felly, mae'r canlynol hefyd yn gymwys:

- **Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer perfformio'r dasg a gyflawnir er lles y cyhoedd neu wrth ymarfer yr awdurdod swyddogol a ysgwyddwyd gan y rheolwr**
- **Mae'r prosesu'n angenrheidiol er lles y diddordebau dilys a ddilynwyd gan y rheolwr**

## Paratoi'r Wybodaeth ar gyfer y Fenter Dwyll Genedlaethol

Fel yr eglurwyd ynghynt, delir y wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y Fenter Dwyll Genedlaethol eisoes gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Fe'i delir gan ein hadran AD a'i goladu'n uniongyrchol o system CoreHR.

Ar gyfer yr ymarferiad hwn, y Rheolwr Cyflogres sy'n gyfrifol am goladu'r data a rhoddir mynediad iddi sydd ei angen i goladu'r wybodaeth o'r amryfal gronfeydd data o fewn CoreHR, am hyd y Fenter Dwyll Genedlaethol yn unig.

## Pa mor hir y delir y wybodaeth?

Rhybudd Preifatrwydd GTADC - Menter Twyll Genedlaethol Fersiwn 1.0 - 26.09.18  
Awdur:- Jackie Evans: Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd

# SWYDDOGOL

# SWYDDOGOL

Delir yr adroddiad a baratowyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru tan y derbyniwyd cadarnhad y'i derbyniwyd gan SAC yn unig. Wedi derbyn cadarnhad, dileer yr adroddiad ei hun o systemau GTADC, oni bai bydd SAC yn gofyn i ni ei gadw'n hirach am ba bynnag reswm.

Bydd y data ei hun yn parhau o fewn CoreHR - gan y'i delir at ddibenion cyflogaeth eraill; fodd bynnag, ni chaiff ei ddal fel un adroddiad, a bydd gan y timau AD unigol fynediad i'r elfennau sy'n ofynnol i'w rôl arbennig hwy yn unig.

Mae SAC a'r Archwilydd Cyffredinol yn dileu pob un o'r setiau data gwreiddiol yn ddiogel o fewn 6 mis o'u cyflwyno. Dileer unrhyw ddata a gesglir neu a gynhyrchwyd ganddynt drwy'r ymarferiad cydweddu data o fewn 3 mis yn dilyn cwblhau'r ymarferiad cydweddu data. (Efallai byddant yn cadw elfennau os bydd gofyn amdanynt at bwrpas unrhyw ymchwiliadau troseddol).

## **Sut ydym yn amddiffyn eich gwybodaeth**

Diogelir pob un o'n systemau TGCh gan fesurau diogelwch technegol sy'n atal mynediad sydd heb ei hawdurdodi, a rhoddir rheolau lefel mynediad i'r rhai hynny sy'n cadw eich data personol i sicrhau dim ond y bobl hynny sydd â'r mynediad priodol sy'n gallu ei gyrchu.

Delir y wybodaeth ei hun ar ein system AD (CoreHR). Mae gan y system honno ddiogelwch hygyrchedd mewn grym - mae'n gyrchadwy gan y rhai hynny sydd angen mynediad i'r data ar gyfer eu rôl benodol yn unig, ac mae ganddynt fynediad i'r rhannau o'r system sy'n ofynnol i'r rôl honno yn unig.

Coladir y data sy'n ofynnol ar gyfer y Fenter Dwyll Genedlaethol o wahanol adrannau system CoreHR, a storir y set data/adroddiad a goladwyd ar Yriant Cyflogres - yn gyrchadwy gan aelodau'r tîm cyflogres yn unig. Dim ond y Rheolwr Cyflogres sydd â'r awdurdodaeth i weithio â'r data a goladwyd a'i ddiwygio, er gall uwch reolwyr wyllo'r adroddiad ar gyfer sicrhau ansawdd.

Datgelir y data terfynol drwy law porthol diogel (sydd wedi'i hamgryptio).

Mae gan SAC a'r Archwilydd Cyffredinol ofyniad cyfreithiol i roi mesurau diogelwch penodol mewn grym sy'n cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys deddfwriaeth Diogelu Data.

## **Mwy o Wybodaeth**

Am ragor o wybodaeth ynghylch grymoedd Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Fenter Dwyll Genedlaethol, ymwelwch â gwefan Swyddfa Archwilio Cymru - [Swyddfa Archwilio Cymru](#)

## **Eich hawliau**

I alluogi unigolion gael fwy o reolaeth dros y ffordd y cesglir a defnyddir eu data personol, mae deddfwriaeth diogelu data'n cynnig hawliau penodol i chi.

Mae gennych hawl gyfreithiol i roi cais am gopi o'r wybodaeth a ddelir gennym amdanoch. Fe ddelir â'ch cais yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. Cyflwynwch eich yn ysgrifennu, i'r Tîm Rheoli Gwybodaeth.

# SWYDDOGOL

Mae GTADC am sicrhau bydd eich gwybodaeth bersonol yn gywir a bod gennych yr hawl i ofyn y byddwn yn cywiro neu'n dileu gwybodaeth sydd, yn eich barn, yn anghywir. (A fyddwch cystal â nodi y cewch ddiweddarau eich manylion personol eich hun wrth ddefnyddio Porthol CoreHR).

Hefyd, mae gennych hawl i ofyn am ddileu unrhyw ddata personol - fodd bynnag, mae hwn dim ond yn gymwys lle bydd yn anghywir, a/neu lle nad oes sail gyfreithiol i ni ei gadw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r modd y mae GTADC yn gofalu am eich data, cyfeiriwch at ein rhybudd preifatrwydd i weithwyr – [Rhybudd Preifatrwydd i Weithwyr GTADC](#)

Pe bai gennych unrhyw gonsyrn pellach, cysylltwch â'n Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd (sydd hefyd yn Swyddog Diogelu Data dynodedig i ni) ar 01443 232213, neu drwy law e-bost [diogeludata@decymru-tan.gov.uk](mailto:diogeludata@decymru-tan.gov.uk)

Hefyd, mae gennych hawl i godi unrhyw bryderon sydd gennych â'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n goruchwyllo Deddfwriaeth Diogelu Data. Gellir canfod gwybodaeth bellach ar eu gwefan - <https://ico.org.uk/concerns/> neu cewch gysylltu â nhw fan hyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn - 0303 123 1113